
THINK JESSICA

# PEIDIWCH Â CHAEL EICH DAL GAN SGAM




GREATER MANCHESTER POLICE

Lancashire Constabulary

NORTH WEST REGIONAL ORGANISED CRIME UNIT

Cheshire Constabulary

MERSEYSIDE POLICE

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Peidiwch â chael eich dal gan sgam | **3** |
| Twyll hunaniaeth | **4** |
| Sgamiau ffugio rhif ffôn | **6** |
| Sgamiau loteri a raffl | **8** |
| Sgamiau clirweledwyr | **10** |
| Sgamiau catalog | **12** |
| Sgamiau cludwyr | **14** |
| Sgamiau buddsoddi | **16** |
| Sgamiau CThEM | **18** |
| Sgamiau cariadon | **20** |
| Sgamiau bwrgleriaeth drwy dynnu sylw | **22** |
| Sgamiau masnachwyr twyllodrus | **24** |
| Sgamiau gwasanaeth meddalwedd gyfrifiadurol | **26** |
| Pa driciau eraill y mae sgamwyr yn eu defnyddio? | **28** |
| Stori Jessica | **30** |
| Cysylltiadau defnyddiol | **36** |
| Manylion cyswllt a all fod yn ddefnyddiol ar frys | **40** |
| Arwydd 'Dim galwyr digroeso' | **41** |


Mae Think Jessica yn hyrwyddo:

trueCall
STOPS NUISANCE CALLS

Ataliodd trueCall **98%** o alwadau niwsans mewn profion a gynhaliwyd gan Safonau Masnach. I gael gwybod mwy am y ddyfais hon, ewch i **www.truecall.co.uk** neu ffoniwch **08000 336 330**.

# Peidiwch â chael eich dal gan sgam




**Mae troseddwyr ledled y byd yn twyllo miliynau o bobl i roi biliynau o bunnoedd i ffwrdd bob blwyddyn. Gelwir y troseddwyr hyn yn sgamwyr.**

Mae sgamwyr yn soffistigedig, cyfrwys a chlyfar ac yn defnyddio llawer o ffyrdd cyfrwys o gasglu gwybodaeth bersonol am bobl.
Mae hyn yn eu galluogi i wybod yn union pwy i'w targedu, a pha fath o sgam y bydd y bobl hynny fwyaf tebygol o gael eu dal ganddynt. Maen nhw'n cysylltu â dioddefwyr posibl drwy'r post, dros y ffôn, drwy e-bost, neges destun neu ar stepen y drws.




Enw arall ar sgamwyr yw twyllwyr, cogwyr, cafflwyr, cowbois a masnachwyr twyllodrus.

# Twyll hunaniaeth




**Mae gan sgamwyr sawl ffordd o ddwyn hunaniaeth pobl, gan gynnwys ffonio person yn uniongyrchol, cael gafael ar lythyron a datganiadau banc a roddwyd i'r naill ochr, a dwyn o gyfrifiaduron a dyfeisiau symudol.**

Gallai unrhyw un sy'n rhannu ei wybodaeth â phobl neu gwmnïau sydd heb eu hasesu, ddioddef twyll.


Os caiff hunaniaeth rhywun ei dwyn, gall sgamwyr wario arian ac agor cyfrifon banc yn enw'r person. Bydd hyn yn effeithio'n sylweddol ar sgôr credyd y dioddefwr.

Maen nhw hefyd yn defnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i dwyn i gael arian o gyfrifon banc a chynilo, a phensiynau. Yn wir, gallan nhw ddefnyddio hunaniaeth sydd wedi'i dwyn i droseddu mewn unrhyw ffordd bosibl.

Byddwch yn arbennig o wyliadwrus o lythyron digymell, galwadau ffôn, neu unrhyw negeseuon e-bost neu destun sy'n honni eu bod gan fanc neu ddarparwr ffôn.

# Cofiwch

- Rhwygwch bob llythyr ac amlen sy'n dangos eich manylion personol.
- Edrychwch yn fanwl ar eich datganiadau banc a cherdyn credyd bob amser.
- Byddwch yn wyliadwrus wrth ateb y ffôn – mae sgamwyr yn aml yn swnio'n gyfeillgar iawn.
- Peidiwch byth â gadel i unrhyw un eich poeni na'ch rhuthro i rannu eich manylion personol.
- Peidiwch byth â chlicio'n awtomatig ar ddolenni, nac agor atodiadau mewn negeseuon e-bost neu destun annisgwyl.
- Os byddwch yn derbyn galwad ffôn amheus yn honni ei fod gan eich banc, darparwr cyfleustodau neu unrhyw gorff swyddogol yn gofyn am wybodaeth bersonol, rhowch y ffôn i lawr a ffoniwch y cwmni eich hunan.
- Os yw'n bosibl, defnyddiwch ffôn arall. Neu arhoswch o leiaf bum munud cyn ffonio. Mae hyn yn sicrhau bod y llinell ffôn wedi'i dorri'n awtomatig, felly ni fyddwch yn siarad â'r sgamiwr neu rywun sy'n gweithio gyda'r sgamiwr (gweler sgamiau cludwyr).
- Os byddwch yn cofrestru gydag asiantaeth sgôr credyd ag enw da, cewch wybod pan fydd asesiad credyd wedi'i gwblhau gan ddefnyddio'ch manylion. Bydd hyn yn rhoi gwybod ichi bod eich hunaniaeth wedi'i dwyn.




Os ydych yn amau bod eich hunaniaeth wedi'i dwyn, neu eich bod wedi dioddef twyll, cysylltwch â'ch banc ar unwaith, a rhowch wybod i Action Fraud.

# Sgamiau ffugio rhif ffôn




**Mae gan lawer o ffonau nodwedd adnabod y galwr – sy'n dangos rhif y person sy'n ffonio.**

Er bod hon yn ffordd ddefnyddiol i bobl sgrinio'r galwadau y maen nhw'n dymuno'u hateb a'r rhai nad ydyn nhw'n dymuno'u hateb, nid yw'n ffordd ddibynadwy o sicrhau pwy sydd ar ben arall y ffôn. Gall sgamwyr newid y rhif a ddangosir ar eich ffôn. Gelwir hyn yn 'ffugio'.

Maen nhw'n gwneud hyn naill ai i guddio pwy ydyn nhw, neu i geisio efelychu rhif cwmni neu berson gwirioneddol.


Maen nhw'n defnyddio ffugio i esgus eu bod yn ffonio o rif gwirioneddol,

e.e. banc neu gwmni credyd, y dioddefwr, darparwr cyfleustodau neu adran y llywodraeth. Eu nod yw dwyn gwybodaeth sensitif, fel manylion cyfrif banc neu fewngofnodi, er mwyn cael gafael ar arian y dioddefwr.

Gall galwadau â rhifau wedi'u ffugio fod o unrhyw le yn y byd.


## Cofiwch

- **Peidiwch byth â dibynnu dim ond ar y rhif adnabod a ddangosir ar y ffôn i adnabod y galwr. Yn hytrach, rhowch y ffôn i lawr, a chwiliwch am y rhif ar eich datganiad banc, mewn llyfr rhifau ffôn, neu ar wefan y cwmni neu adran y llywodraeth, i sicrhau bod yr alwad yn un ddilys.**
- **Os yw'n bosibl, defnyddiwch ffôn arall. Neu arhoswch o leiaf pum munud cyn ffonio. Mae hyn yn sicrhau bod y llinell ffôn wedi'i dorri'n awtomatig, felly ni fyddwch yn siarad â'r sgamiwr neu rywun sy'n gweithio gyda'r sgamiwr (gweler sgamiau cludwyr).**
- **Peidiwch byth ag ateb unrhyw gwestiynau a allai arwain at ganlyniadau ariannol.**




Mae rhywun yn cael ei ddal gan sgam bob 15 eiliad.

# Sgamiau loteri a raffl





**Mae sgamwyr loteri a raffl yn cysylltu drwy lythyr. Maen nhw'n ceisio twyllo pobl i gredu eu bod wedi ennill gwobr neu swm mawr o arian.**

Mae'r sgamiwr yn honni bod y dioddefwr wedi'i ddewis 'ar hap'. Weithiau maen nhw'n defnyddio enwau brandiau enwog er mwyn swnio'n fwy dilys. Gall fformat y sgamiau hyn amrywio, ond yr un yw'r nod bob tro – mae angen talu rhyw fath o ffi ymlaen llawn i hawlio'r wobr ffug.

Gelwir sgamiau drwy'r post yn dwyll marchnata torfol. Mae troseddwyr marchnata torfol yn rhannu manylion dioddefwyr â sgamwyr eraill ledled y byd. Felly, gallai unrhyw un sy'n ymateb gael pentyrrau o lythyron yn y pen draw yn ceisio'u twyllo i dalu mwy o arian eto.

## Cofiwch

- **Prynwch docynnau loteri o wefannau neu fanwerthwyr dibynadwy yn unig.**
- **Os ydych yn cael clywed eich bod wedi ennill gwobr mewn cystadleuaeth na wnaethoch chi erioed roi cynnig arni, mae'n sgam.**
- **Os gofynnir ichi ffonio rhif i gael gwybod beth yr ydych wedi'i ennill, peidiwch. Gallwch gael eich darbwyllo i dalu am wobr nad yw'n bodoli gael ei danfon atoch.**
- **Cynhyrchir llythyron loterïau a rafflau mewn swmp. Fodd bynnag, mae technoleg fodern yn ei gwneud hi'n bosibl i sgamwyr ychwanegu enw'r derbynnydd sawl gwaith yn y testun, gan roi'r argraff ei fod wedi'i ysgrifennu atoch chi'n bersonol.**




Ni fyddai unrhyw loteri na raffl yn gofyn ichi anfon arian i hawlio gwobr.

# Sgamiau clirweledwyr




**Weithiau, bydd sgamwyr clirwelediad a seicig yn cysylltu â darpar ddioddefwyr drwy e-bost, ond fel rheol bydd drwy'r post. Eu nod yw twyllo'r dioddefwr i gredu y gall eu 'pwerau' ddatrys ei broblemau, dod â lwc dda, dileu anlwc, ei helpu i ddod o hyd i gariad pur, neu ei ddiogelu rhag niwed.**

Mae'r llythyron y maen nhw'n eu hanfon yn edrych fel rhai personol i'r derbynnydd. Ond mewn gwirionedd, gallai'r neges fod yn berthnasol i unrhyw un. Er enghraifft; "Rydych yn unigolyn diduedd, ond weithiau nid yw pobl yn eich deall"; "Mae rhywbeth wedi bod ar eich meddwl yn ddiweddar"; "Rydych yn ystyried newid rhywbeth yn eich bywyd".

Mae rhai yn ceisio darbwyllo pobl i brynu tlysau lwcus; neu'n honni bod ganddyn nhw neges o'r bedd. Beth bynnag fo'r stori, bydd dioddefwyr yn gorfod talu am y cymorth ffug gan y clirweledydd. Os gwneir taliad, bydd rhagor o gelwyddau yn dilyn – mae'r sgamiwr eisiau cael taliadau parhaus. Mae'r rhai sy'n mynd trwy gyfnod anodd, neu'n teimlo'n unig, mewn fwy o berygl o gael eu dal gan y mathau hyn o sgam.


## Cofiwch

- **Mae sgamwyr clirwelediad yn aml yn cuddio y tu ôl i luniau sydd wedi'u dwyn. Ni fyddan nhw byth yn datgelu pwy ydyn nhw ar frig llythyron nac ar wefannau.**
- **Mae rhai sgamwyr yn casglu gwybodaeth sy'n wir am bobl trwy chwilio ar y cyfryngau cymdeithasol, safleoedd rhwydweithio a hysbysiadau profedigaeth.**
- **Nid yw'r ffaith bod rhywun yn ymddangos fel pe bai'n gwybod pethau amdanoch yn golygu bod ganddo bwerau arbennig.**
- **Peidiwch â chael eich temtio i dalu arian am y rhifau loteri 'buddugol' – maen nhw bob amser yn ffug. Os byddwch yn talu, yr unig un ar ei ennill fydd y sgamiwr.**
- **Mae unrhyw ymateb gennych chi yn dangos bod gennych ddiddordeb, hyd yn oed os nad ydych yn anfon arian.**
- **Os byddwch yn ymateb i lythyr sgam clirweledydd, gallech yn y pen draw gael amrywiaeth o sgamiau eraill drwy'r post, gan fod sgamwyr trwy'r post yn rhannu gwybodaeth dioddefwyr.**




Eich gorffennol, eich dyfodol ...
eich busnes chi yw hynny!

# Sgamiau catalog




**Mae sgamwyr yn anfon gohebiaeth yn gwerthu amryw o gynhyrchion, gan gynnwys bwyd, tabledi, cynhyrchion iechyd a harddwch, gemwaith, dillad ac eitemau ar gyfer y tŷ a'r ardd.**

Mae'r sgamiwr yn addo gwobr i'r rhai sy'n archebu, ond hyd yn oed os bydd y nwyddau'n cyrraedd, nid yw'r wobr byth yn cyrraedd. Mae dioddefwyr yn aml yn derbyn sothach diwerth a rhagor o addewidion gwag i'w temtio i archebu eto.

Mae'r eitemau yn aml yn rhy ddrud, ac nid yw cynhyrchion iechyd a harddwch yr honnir eu bod yn wyrthiol byth yn bodloni disgwyliadau'r prynwr. Mae sgamiau catalog wedi'u lleoli dramor fel arfer, ond bydd y sgamwyr yn defnyddio cyfeiriadau postio yn y DU.


## Cofiwch

- **Peidiwch byth â phrynu nwyddau nad oes eu hangen arnoch neu na allwch eu fforddio gan unrhyw gwmni, er mwyn hawlio gwobr.**
- **Os ydych yn rhoi eich manylion banc i sgamiwr, gallech fod yn talu am nwyddau a derbyn nwyddau nad ydych wedi'u harchebu.**
- **Mae'r sgamiau hyn yn aml yn ymwneud â'r dioddefwr yn cael galwadau ffôn yn cadarnhau ei fod wedi 'ennill'; neu'n dweud am gadw llygad am ragor o lythyron pwysig fydd yn cyrraedd.**
- **Gellir tynnu llun o eitemau (gan gynnwys gemwaith) fel eu bod yn edrych yn fwy gwerthfawr nag y maen nhw.**
- **Os ydych yn siomedig â'r nwyddau yr ydych wedi'u derbyn, efallai y bydd yn amhosibl neu'n ddrud i'w dychwelyd a chael ad-daliad.**




Os ydych yn ansicr a yw cwmni'n ddilys ai peidio, peidiwch ag archebu ganddo.

# Sgamiau cludwyr




**Mae llawer o amrywiadau ar y sgam hwn. Bydd y sgamiwr yn ffonio'r dioddefwr yn honni ei fod yn rhywun swyddogol, e.e. rheolwr banc, swyddog heddlu neu asiant gorfodi'r gyfraith.**

*Eu nod yw codi ofn ar y dioddefwr trwy ddweud bod rhywbeth difrifol wedi digwydd, e.e. gwelwyd taliad twyllodrus ar ei gerdyn, neu fod rhywun wedi dwyn ei hunaniaeth.* ***Dywedir wrth y dioddefwr i ffonio'r rhif ar gefn y cerdyn banc, neu ffonio'r heddlu i gadarnhau bod yr alwad yn un ddilys. Fodd bynnag, pan fo'r dioddefwr yn rhoi'r ffôn i lawr, mae'r sgamiwr yn aros ar y llinell i gadw'r cysylltiad ar agor. Os bydd y dioddefwr yn ffonio ar unwaith yn unol â'r cyfarwyddiadau, y sgamiwr sy'n ateb gan esgus ei fod yn gweithio i'r banc neu'r heddlu. Mae wedyn yn ymhelaethu ar y mater difrifol honedig.***

Mae'n bosibl y bydd yn gofyn i'r dioddefwr ddatgelu ei rif PIN ac y bydd cludwr yn dod i gasglu'r cerdyn. Neu, gellid dweud wrth y dioddefwr bod aelod o staff sydd wedi'i gyhuddo o weithgareddau llwgr yn ei fanc, swyddfa'r post neu bureau de change, a bod angen cymorth y dioddefwr i helpu mewn ymchwiliad cudd i nodi'r person hwnnw.

Mae'n bosibl y gofynnir iddyn nhw dynnu swm mawr o arian o'r banc a'i drosglwyddo i'r cludwr. Mae rhai dioddefwyr wedi prynu eitemau drud a'u trosglwyddo, gan gredu eu bod yn helpu'r heddlu i ddod o hyd i nwyddau ffug.


## Cofiwch

- **Ni fydd y banc na'r heddlu BYTH yn gofyn am rifau PIN; anfon cludwyr i gasglu cardiau banc; gofyn i bobl symud arian i gyfrif arall; gofyn am gymorth ag ymchwiliadau; nac yn gofyn i drosglwyddo arian neu nwyddau.**
- **Gall y sgamiau hyn fod yn fygythiol, felly peidiwch â dechrau sgwrs – rhowch y ffôn i lawr.**
- **I gadarnhau bod unrhyw alwad yn ddilys, peidiwch byth â ffonio'r rhif y mae'r person ar y ffôn yn ei roi ichi.**
- **Defnyddiwch ffôn arall i ffonio. Neu arhoswch o leiaf bum munud cyn ffonio. Mae hyn yn sicrhau bod y llinell ffôn wedi'i dorri'n awtomatig, felly ni fyddwch yn siarad â'r sgamiwr neu rywun sy'n gweithio gyda'r sgamiwr.**




Yr unig berson ddylai fod â'ch cerdyn banc ac yn gwybod eich rhif PIN yw CHI!

# Sgamiau buddsoddi




**Mae sgamwyr buddsoddi yn twyllo pobl i fuddsoddi, trwy roi sicrwydd iddyn nhw y byddant yn cael adenillion mawr heb fawr o risg. Gall y sgamiau buddsoddi hyn fod mewn pethau fel gemau drud, credyd carbon, paneli solar, tir, gwin neu eiddo.**

Mae'r rhyngrwyd a chyfathrebu digidol gwell wedi helpu'r sgamiau hyn i ymddangos yn ddilys iawn. Mae gwefannau'n edrych yn broffesiynol, ac mae'r ohebiaeth gain y maen nhw'n ei hanfon yn edrych yn ddrud i'w chynhyrchu.

Mae tystebau ffug yn honni bod buddsoddwyr wedi ennill ffortiwn. Gallan nhw edrych mor ddilys, mae hyd yn oed buddsoddwyr proffesiynol wedi'u dal ganddynt. Mae diddordeb arbennig gan sgamwyr buddsoddi mewn targedu pobl hŷn, gan wybod ei bod yn bosibl bod ganddyn nhw gynilion mawr neu fynediad at gronfa bensiwn.


## Cofiwch

- **Gwrthodwch unrhyw alwadau, negeseuon e-bost, negeseuon testun neu ymwelwyr digymell.**
- **Ni fydd cwmnïau buddsoddi dilys yn gwneud galwadau digroeso nac yn cysylltu â chi'n annisgwyl.**
- **Peidiwch â chael eich twyllo gan gyfeiriadau swyddfa nodedig, na gwefannau proffesiynol. Mae sgamwyr yn rhentu blychau post mewn ardaloedd pen ucha'r farchnad, ac yn cyflogi pobl sy'n gallu siarad yn dda i ateb galwadau ffôn.**
- **Os ydych yn ystyried cyfle buddsoddi, gwnewch yn siŵr nad ydych yn ymdrin â chwmni 'clôn'. Sgam cyffredin yw hwn pan fo sgamwyr yn esgus eu bod yn gwmni gwirioneddol. Defnyddiwch y manylion cysylltu ar gofrestr yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), nid y manylion y mae'r cwmni'n eu rhoi i chi.**




Os ydych wedi colli arian yn y gorffennol, gallech fod yn darged i gwmnïau twyllodrus eraill yn honni y gallan nhw eich helpu i hawlio'ch arian yn ôl.

# Sgamiau CThEM




**Er yr anfonir y sgamiau hyn drwy e-bost a neges destun, mae sgamwyr yn aml yn cysylltu â dioddefwyr ac yn gadael neges ar y peiriant ateb.**

Bydd y neges yn dweud: 'Mae CThEM wedi canfod problem ddifrifol o ran eich treth'. Mae rhai dioddefwyr wedi clywed bod eu cartref dan oruchwyliaeth; mae eraill wedi clywed y byddan nhw'n cael eu harestio am beidio â thalu taliad treth ffug.

Dull arall y mae sgamwyr CThEM yn ei ddefnyddio yw dweud wrth y dioddefwr bod ad-dalid treth wedi'i ddyfarnu iddo.

Pa ddull bynnag y mae'r sgamiwr yn ei ddefnyddio, mae'r dioddefwr yn cael cyfarwyddyd i wasgu botwm ar ei ffôn i ffonio'r sgamiwr yn ôl ar unwaith, neu i ffonio ar unwaith y rhif a adawyd yn y neges. Gofynnir i'r dioddefwyr sydd yn ffonio nôl i wneud taliad ar unwaith.

## Cofiwch

- **Mae CThEM yn ffonio pobl weithiau ynglŷn â biliau treth heb eu talu, ac yn defnyddio negeseuon awtomataidd. Fodd bynnag, byddan nhw bob amser yn defnyddio cyfeirnod y trethdalwr. Ni fyddan nhw byth yn dweud wrthych am ad-daliad treth neu gosb, nac yn gofyn am eich manylion talu personol.**
- **Os ydych yn cael e-bost neu alwad ffôn amheus, gallwch helpu ymchwiliadau CThEM trwy anfon yr e-bost ymlaen, neu anfon:**

  **- eich rhif ffôn**
  **- rhif ffôn y galwr**
  **- amser a dyddiad yr alwad ffôn**
  **- disgrifiad byr o'r alwad ffôn**

  **i phishing@hmrc.gov.uk (Sylwer: caiff eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn eu rhannu â sefydliadau eraill, os oes angen gwneud hynny, i ddileu'r sgam.)**
- **Anfonwch negeseuon testun amheus i 60599.**




Gall sgamiau treth ddigwydd unrhyw bryd, ond maen nhw'n fwy cyffredin wrth nesáu at derfynau amser allweddol, megis pan ddisgwylir eich ffurflen dreth.

# Sgamiau cariadon




**Mae sgamwyr ar wefannau dod o hyd i gariad yn defnyddio lluniau sydd wedi'u dwyn i guddio tu ôl i broffiliau ffug. Gallan nhw fod o filwyr, pobl broffesiynol, modelau ac ati.**

Maen nhw'n aml yn honni bod eu gwaith yn eu tywys dramor. Os bydd dioddefwr yn ceisio ymchwilio, trwy ddefnyddio enw'r person y mae'r sgamiwr yn ffugio bod, bydd y celwyddau yn ymddangos yn wir.

Pan fydd y sgamiwr yn hyderus ei fod wedi meithrin ymddiriedaeth a chysylltiad emosiynol â'r person, bydd yn sôn am broblem sydd ganddo, ac yn y pen draw yn gofyn am arian i'w helpu.

Sgam arall yw pan fo'n dweud ei fod yn dymuno cwrdd, ond bod angen arian i dalu am y daith neu'r fisa neu'n dweud bod popeth wedi'i drefnu ond bod ei docyn wedi'i ddwyn.

Gofynnir i'r dioddefwr anfon arian yn gyflym er mwyn bod ar y daith nesaf.

Mae eraill yn defnyddio dulliau emosiynol, fel dweud bod aelod o'r teulu (neu rywun y maen nhw'n gyfrifol amdano) yn sâl a bod angen arian am driniaeth feddygol.

Os anfonir arian, bydd y sgamiwr yn dod yn ôl dro ar ôl tro, ac yn dyfeisio rhesymau newydd i anfon mwy atyn nhw. Mae rhai sgamwyr yn twyllo'r dioddefwyr i'w helpu i wyngalchu eu henillion drwg. Mae gwyngalchu arian yn drosedd ddifrifol.

## Cofiwch

- **Dylech osgoi rhoi gormod o fanylion personol. Gall datgelu eich enw llawn, eich dyddiad geni a'ch cyfeiriad cartref arwain at ddwyn eich hunaniaeth.**
- **Peidiwch byth ag anfon arian at rywun yr ydych wedi'i gwrdd ar-lein, waeth faint yr ydych yn ymddiried ynddyn nhw neu'n credu eu stori.**
- **Mae'n well gan sgamwyr caru gyfathrebu y tu allan i'r wefan dod o hyd i gariad, i sicrhau nad oes unrhyw dystiolaeth ohonyn nhw'n gofyn ichi am arian.**
- **Peidiwch â chael eich twyllo gan ddogfennau ffug. Gall troseddwyr efelychu a llungopïo unrhyw beth, gan gynnwys tocynnau awyren, gofynion fisa a phasbortau.**




Os ydych yn amau eich bod wedi eich targedu gan sgamiwr, rhowch y gorau i'r holl gyfathrebu ar unwaith a rhoi gwybod amdano i'r wefan dod o hyd i gariad.

# Sgamiau bwrgleriaeth drwy dynnu sylw




**Mae byrgleriaid sy'n tynnu eich sylw yn gweithio mewn parau weithiau. Bydd un troseddwr yn tynnu sylw'r dioddefwr, a bydd y partner yn sleifio i mewn i'r tŷ i chwilio am arian a phethau gwerthfawr.**

Gall y rhain esgus bod yn bobl swyddogol, gan honni bod yn swyddogion yr heddlu, ymchwilwyr y farchnad, yn gweithio i'r cyngor, gofalwyr iechyd, neu'n dod o gwmnïau nwy, dŵr, trydan, ffôn neu deledu. Bydd eraill yn ceisio manteisio ar haelioni eraill trwy ddweud eu bod yn casglu at elusen. Bydd rhai yn dweud bod angen pen a phapur arnyn nhw i adael neges i gymydog, neu'n gofyn am gael defnyddio'r ffôn i ddod i mewn i'r tŷ.


Efallai y byddan nhw'n denu perchennog y tŷ allan drwy ofyn am gael ei bêl yn ôl o'r ardd, neu i chwilio am anifail anwes sydd ar goll.

Mae rhai yn defnyddio'r dull o ffugio brys a phanig: "Rydym o'r Bwrdd Dŵr; mae pibell wedi torri yn y stryd; mae angen inni ddod i mewn i droi eich dŵr i ffwrdd ar unwaith!"

Gallan nhw eich argyhoeddi, eich swyno a dwyn perswâd yn rhwydd. Gallan nhw fod yn ifanc (yn blant hyd yn oed), yn hen, yn ddyn neu'n fenyw. Gallan nhw ymddangos yn swyddogol, yn gwisgo dillad smart, ac yn cario gwaith papur sy'n edrych yn swyddogol a chardiau adnabod (sy'n ffug).


## Cofiwch

- **Cadwch ddrws y ffrynt a drws y cefn ar glo, hyd yn oed pan fyddwch chi gartref. Sicrhewch fod y gadwyn neu'r bar drws yn eu lle cyn agor y drws.**
- **Os yw'r person wrth y drws yn rhywun nad ydych yn ei adnabod neu nad ydych yn ei ddisgwyl, peidiwch ag agor y drws yn llydan.**
- **Os ydych yn amau nad yw'r person wrth y drws yn ddilys, neu fod y person yn gwneud ichi deimlo'n ofnus, dan fygythiad neu'n bryderus, ffoniwch 999.**
- **Os yw'r person wrth y drws yn honni bod ar ymweliad brys neu oherwydd rheswm swyddogol, caewch y drws a ffoniwch y cwmni y mae'r person yn honni ei gynrychioli i sicrhau ei fod yn ddilys.**
- **Peidiwch byth â ffonio'r rhif y mae'r person wrth y drws yn ei roi ichi. Chwiliwch am y rhif eich hun, trwy ddefnyddio biliau cyfleustodau, gwefannau swyddogol neu'r gwasanaeth ymholiadau rhif ffôn.**
- **Peidiwch byth â chadw llawer o arian yn y cartref. I fod yn ddiogel, cadwch yr arian mewn banc neu swyddfa'r post.**




Nid oes raid ichi adael unrhyw un i mewn i'ch tŷ os nad ydych yn siŵr pwy ydynt. Ddim yn siŵr? I ffwrdd â nhw!

# Sgamiau masnachwyr twyllodrus




**Sgamwyr yw masnachwyr twyllodrus, sy'n galw yn nhai pobl ac yn cynnig gwasanaethau fel siapio llwyni, glanhau cwteri, garddio, gwaith cynnal a chadw tŷ, golchi â chwistrell, gosod dreifiau a phafin ac ati.**


Gallan nhw ymddangos yn gyfeillgar a chymwynasgar iawn, ac mae eu broliant yn aml yn swnio'n dderbyniol. Mae'n bosibl y byddan nhw'n ceisio twyllo'r perchennog tŷ trwy ddweud eu bod yn cynnig cyfraddau arbennig i bobl hŷn… am gyfnod byr.

Dull cyffredin yw dweud eu bod wedi bod yn gweithio yn yr ardal, ac wedi sylwi ar broblem ar y tŷ y mae angen ei thrwsio. Mewn gwirionedd, nid oes problem o gwbl fel arfer. Hyd yn oed os oes problem, ni fydd masnachwr twyllodrus yn ei thrwsio'n iawn. Gallai cytuno iddo wneud y gwaith arwain at fwy o ddifrod, a'r angen am waith trwsio drutach gan fasnachwr cymwysedig.

Weithiau, mae masnachwyr twyllodrus yn ceisio argyhoeddi'r dioddefwr mai dim ond gwaith bach sydd ei angen ond wedyn yn dyfeisio mwy o broblemau ar ôl dechrau. Mae hyn yn twyllo'r dioddefwr i wario rhagor o arian eto – mae rhai wedi cael eu darbwyllo i dalu miloedd o bunnoedd.

## Cofiwch

- **Rhowch arwydd 'dim galwyr digroeso' ar eich drws, i atal masnachwyr digroeso ar eich stepen drws.**
- **Cadwch ddrws ffrynt a drws cefn y tŷ ar glo. Sicrhewch fod y gadwyn neu'r bar drws yn eu lle cyn agor y drws i unrhyw un.**
- **Os bydd galwr digroeso neu unrhyw un yn cnocio ar eich drws yn ceisio gwaith, peidiwch â dechrau sgwrs gyda nhw. Dywedwch nad oes gennych ddiddordeb a chaewch y drws.**
- **Efallai mai dim ond un masnachwr twyllodrus sydd ar eich stepen drws, ond os byddwch yn cytuno i waith, gall rhywun sy'n gweithio gyda'r person hwn fod o gwmpas y gornel.**
- **Os yw'n bosibl, gwnewch nodyn o'r math o gerbyd maen nhw'n ei ddefnyddio, a lliw a rhif y cerbyd.**
- **Os oes angen gwaith ar eich eiddo, gofynnwch i ffrindiau a theulu argymell rhywun i wneud y gwaith, neu defnyddiwch fasnachwr sydd wedi'i wirio gan y cyngor.**




Os oes galwr amheus ar eich eiddo, neu newydd adael, ffoniwch 999. Os yw ar ôl y digwyddiad, ffoniwch 101.

# Sgamiau gwasanaeth meddalwedd gyfrifiadurol




**Mae'r sgamiwr yn ffonio'r dioddefwr ac yn gofyn amdano gan ddefnyddio'i enw. Mae'n dweud ei fod yn arbenigwr diogelwch cyfrifiadurol o Microsoft, Apple, neu gwmni technoleg dilys arall.**

Trwy ddefnyddio jargon dryslyd, mae'n dweud wrth y person bod ei gyfrifiadur, gliniadur neu gyfrifiadur llechen wedi'i heintio â maleiswedd, bod firws ar y cyfrifiadur, ei fod yn rhedeg yn araf neu fod problem ffug arall arno. Bydd yn honni ei fod yn gallu datrys y mater. Mae rhai sgamwyr yn dangos beth yw'r broblem er mwyn eich argyhoeddi'n hawdd.

Dywedir wrth y dioddefwr bod angen gosod meddalwedd i ddatrys y broblem, ac mae'r sgamiwr yn dweud sut i wneud hyn. Fodd bynnag, mae'r feddalwedd hon yn faleisus. Gallai gasglu data sensitif, fel enwau defnyddiwr a chyfrineiriau ar gyfer bancio ar-lein.

Ceir sawl fersiwn o'r sgam hwn. Gall y sgamiwr ofyn yn syml am arian, yn gyfnewid am 'ddiogelwch am oes' rhag y faleiswedd y maen nhw'n honni eu bod wedi'i thynnu oddi ar y cyfrifiadur.

## Cofiwch

- **Ni fydd unrhyw wasanaeth cyfrifiaduron dilys yn cysylltu â chi'n ddirybudd; chi sy'n gorfod cychwyn unrhyw gyfathrebu â nhw. Gallan nhw ddim hyd yn oed dweud a yw eich cyfrifiadur WEDI'I heintio!**
- **Os byddwch yn derbyn galwad ffôn ddirybudd gan unrhyw un yn honni ei fod o gwmni cymorth technegol, rhowch y ffôn i lawr.**
- **Defnyddiwch gyfrineiriau cryf, cymhleth, unigryw ar gyfer eich holl gyfrifon ar-lein. Bydd hyn yn helpu i gadw'ch holl wybodaeth bersonol ac ariannol yn ddiogel.**
- **I gael mwy o wybodaeth am sut i'ch cadw chi a'ch cyfrifiadur yn ddiogel rhag sgamiau cyfrifiadurol, ewch i'r gwefannau 'Get Safe Online' a 'Stay Safe Online' a restrir yng nghefn y llyfr hwn.**




Peidiwch â gadael i sgamiwr fynd at eich cyfrifiadur. Mae eich gwybodaeth bersonol yn werthfawr...mae angen ei diogelu.

# Pa driciau eraill y mae sgamwyr yn eu defnyddio?

Mae **sgamwyr** yn twyllo pobl i anfon pasbortau, ffotograffau a thystysgrifau geni atyn nhw.

Mae **sgamwyr** yn cyflogi gweithredwyr ffôn profiadol i wneud galwadau ar eu rhan. Maen nhw'n swnio'n broffesiynol, yn gweithio o sgript ac maen nhw wedi'u hyfforddi i ateb cwestiynau. Nid oes gan rai ohonynt unrhyw syniad eu bod yn cael eu defnyddio i helpu troseddwyr.

Mae **sgamwyr** yn cysylltu â'r dioddefwr yn honni eu bod wedi prynu dyled yn ei enw gan gwmni neu gyflenwr cyfleustodau dilys. Maen nhw wedyn yn bygwth achos llys os na thelir y bil neu'r ddirwy ffug.

Mae **sgamwyr** yn dwyn manylion banc dioddefwyr trwy eu twyllo i adnewyddu eu trwyddedau teledu neu wefannau ffug. Cofiwch – gall sgamwyr greu gwefannau sy'n argyhoeddi'n hawdd a chopïo gwefannau dilys.

Mae **sgamwyr** yn rhoi negeseuon testun mewn trafodaeth destun yr ymddiriedir ynddi.

Mae **sgamwyr** yn ffonio, yn esgus bod yn fusnes dilys, ac yn camarwain pobl i rannu gwybodaeth bersonol ac ariannol. Er mwyn i'r alwad argyhoeddi'r person yn fwy, maen nhw'n defnyddio sŵn cefndirol ffug i roi argraff eu bod mewn canolfan alwadau.

Mae **sgamwyr** yn gwneud galwadau ffôn, gan honni ar gam eu bod yn ffonio ar ran cwmni dilys. Maen nhw'n dweud bod warant ar rywbeth sydd gan y dioddefwr wedi dod i ben, e.e. peiriant golchi neu beiriant codi llwch. Caiff y dioddefwr ei berswadio i dalu i adnewyddu'r warant.


Mae **sgamwyr** yn anfon negeseuon ffôn wedi'u awtomeiddio yn honni bod o adran dechnegol darparwr gwasanaeth rhyngrwyd. Dywedir wrth y dioddefwyr bod eu gwasanaeth rhyngrwyd ar fin cael ei ddatgysylltu, e.e. oherwydd bod hacwyr wedi mynd i'w cyfrifiadur, neu oherwydd bod firws ar y cyfrifiadur.

Mae **sgamwyr** yn gofyn am daliadau trwy dalebau iTunes neu STEAM. Ni ellir defnyddio'r rhain i wneud taliad dilys gan eu bod yn gardiau rhodd.

Gall **sgamwyr** esgus bod yn unrhyw un. Gall fod yn amhosibl gwybod o ble maen nhw'n ffonio hyd yn oed pan fyddan nhw'n enwi lleoliad.

Mae **sgamwyr** yn gofyn i ddioddefwyr rannu eu manylion cerdyn i dalu am iddyn nhw ddanfon rhodd neu sampl am ddim. Fodd bynnag, yn ddiarwybod, mae'r dioddefwr wedi ymrwymo i dalu am danysgrifiad.

Mae **sgamwyr** y tu ôl i sgamiau loteri a raffl yn ceisio twyllo'u dioddefwyr am yr eildro. Maen nhw'n anfon llythyron yn dweud: 'Nid ydych wedi hawlio eich gwobr ac mae'n cael ei ddal gan gwmni cadw, felly mae angen talu i'w rhyddhau'.




# Stori Jessica



Yn 2002, pan oedd Jessica yn ei 70au hwyr, dechreuodd ddioddef mân ddryswch a cholli'r cof yn gysylltiedig ag oedran. Ei ffordd hi o ymdrin â hyn oedd sicrhau dwywaith fod popeth wedi'i ddiffodd a'i gloi. Nid oedd yn ymddangos ei bod mewn unrhyw berygl yn byw ar ei phen ei hun. Roedd hi'n hynod annibynnol, yn gymdeithasol, ac yn ymdopi'n iawn. Byddai Jessica yn dweud amdani ei hun fod ganddi ysbryd ifanc.

Newidiodd y cyfan un dydd pan gafodd lythyr a oedd yn ymddangos yn gyffrous iawn. Dywedodd wrthi ei bod wedi ennill cystadleuaeth, a'r cyfan yr oedd yn rhaid iddi ei wneud i hawlio'i arian oedd anfon ffi fach. Roedd Jessica wrth ei bodd. Llenwodd y ffurflen hawlio ac anfonodd y ffi.

Roedd hi'n credu y byddai ennill y wobr hon yn ei galluogi o'r diwedd i helpu ei hanwyliaid, a rhoi arian i'r elusennau plant oedd mor annwyl iddi.

Yn anffodus i Jessica, nid oedd y llythyr hwnnw yn ddim byd ond darn diwerth o bapur, a'r bwriad oedd ei chael i dalu arian. Hwn oedd ei llythyr sgam cyntaf.

## Dechrau'r hunllef...

Pan sylweddolodd aelodau'r teulu beth oedd hi wedi'i wneud, fe wnaethon nhw drio esbonio ei bod hi wedi'i dal gan sgam, ond nid






oedd Jessica erioed wedi clywed am bost sgam a gwrthododd eu credu.

Wrth gwrs, ni wnaeth unrhyw arian gyrraedd. Ond cafwyd cynnydd yn nifer y dogfennau a oedd yn cyfeirio at wobrau, a oedd yn ymddangos i Jessica yn rhai pwysig. Dechreuodd hefyd brynu nwyddau drud o gatalogau, a oedd yn dweud wrthi dro ar ôl tro ei bod hi un archeb i ffwrdd o wobr arian sicr.


Heb yn wybod iddi hi, roedd y sgamwyr a anfonodd y llythyr cyntaf hwnnw wedi rhoi ei henw ar restr ac yn gwerthu ei manylion i droseddwyr eraill ledled y byd. Wrth i'r wythnosau droi'n fisoedd, bu cynnydd sylweddol yn y post sgam a gawsai.


Yn fuan, roedd ei phostmon yn galw heibio gyda tua 30 llythyr y dydd, o bob cwr o'r byd. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn dweud pethau fel Enillydd Sicr, Dogfen â Chyfyngiad Amser, Ymatebwch Ar Unwaith I Hawlio'ch Gwobr, a sloganau a logos amrywiol eraill drostyn nhw i gyd.

Po fwyaf yr oedd y teulu'n ceisio cael Jessica i weld y gwirionedd am yr hyn oedd yn digwydd, y mwyaf o ddadleuon oedd yn codi. Fe wnaeth hyd yn oed fygwth cefnu ar aelodau ei theulu pe byddent yn ceisio ymyrryd.

Heb yn wybod i Jessica, ceisiodd ei merch Marilyn yn daer i ddod o hyd i gymorth. Cysylltodd â'r heddlu, a phob asiantaeth, sefydliad ac elusen a oedd yn ymwneud â'r henoed yr oedd hi'n gallu meddwl amdanyn nhw, ond y cyfan a gafodd oedd cyngor fel 'Dwedwch wrthi, os yw'n ymddangos yn rhy dda i fod yn wir, yna fwy na thebyg mae e', a 'Dargyfeiriwch y post a newid ei rhif ffôn'. Doedd hynny byth yn opsiwn, oherwydd heb gydweithrediad Jessica, doedd dim grym gan Marilyn i ymyrryd.

## PEIDIWCH Â CHOLLI'R CYFLE






Dywedodd postmon Jessica wrth Marilyn fod llawer o bensiynwyr yn cael llawer iawn o bost sgam, a bod rhai yn cael hyd at 100 o lythyron sgam bob dydd.



Er nad oedd yn hoffi eu dosbarthu, doedd dim y gallai'r postmon ei wneud, oherwydd bod rhwymedigaeth cyfreithiol ar y Post Brenhinol i ddosbarthu'r holl bost â chyfeiriad arno.

## Aeth pethau'n sinistr

Roedd y clirweledwyr honedig hefyd wedi dechrau anfon pethau ati yn esgus bod yn ffrind iddi. Argyhoeddodd y clirweledwyr Jessica mai ei theulu oedd y gelyn, a'u bod yn genfigennus o'r cyfoeth yr oedd ar fin ei gael. Cafodd ei thwyllo i gredu mai nhw oedd yr unig rai oedd yn gofalu am ei lles. Daeth yn ffrind i un clirweledydd o'r Iseldiroedd, gan ysgrifennu llythyron personol ato wrth iddi anfon y taliadau ato. Dywedodd eraill wrthi fod trychineb a niwed yn wynebu hi a'i theulu, ond bod modd cadw'r anlwc draw am ffi.

Byddai'n aml i fyny tan 3 o'r gloch y bore yn ceisio ateb gofynion y sgamwyr. Roedd wedi rhoi cymaint o arian tuag at yr hyn yr oedd hi'n credu fyddai'n daliad enfawr iddi, ac wedi addo rhodd o arian i gymaint o bobl, doedd hi ddim yn gallu canolbwyntio ar unrhyw beth arall. Doedd Jessica erioed wedi torri addewid yn ei bywyd ac roedd hi'n mynnu na fyddai hynny byth yn digwydd.






## Dan y swyn



Roedd pentyrrau o bost sgam o amgylch y tŷ – mewn cypyrddau, dreiriau a chypyrddau dillad. Roedd ei sied yn llawn o fagiau plastig, yn orlawn o bost sgam. Byddai'n parhau i roi ei rhif ffôn, felly byddai sgamwyr o dramor yn ei ffonio yn hwyr y nos. Doedd dim byd arall yn bwysig i Jessica. Roedd ei bywyd yn troi o amgylch y cannoedd o lythyron y byddai'r postmon yn eu dosbarthu iddi bob wythnos. Weithiau, byddai'n mynd heb fwyd yn hytrach na methu taliad i sgam.


## Roedd y seicoleg a ddefnyddiai'r sgamwyr yn bwerus iawn


Roedd obsesiwn Jessica yn ymddangos fel pe bai'n anfon yr arian o'i gwirfodd, ond roedd Marilyn yn gallu gweld bod ei mam wedi'i chyflyru gan y galwadau ffôn a'r llythyron di-baid. Dros ryw bum mlynedd, anfonwyd miloedd o bunnoedd gan Jessica at y troseddwyr.

## Aeth pethau o ddrwg i waeth

Byddai'n dechrau mynd i banig pan na allai ddod o hyd i ddigon o arian i lenwi'r holl amlenni wedi'u cyfeirio ymlaen llaw, â Blychau Post ym mhob cwr o'r byd. Dyna pryd y rhoddodd y gorau i dalu ei biliau cartref. Ni soniodd wrth unrhyw un am ei helbul ariannol, ac eithrio ei hoff glirweledydd yn yr Iseldiroedd.

## PEIDIWCH Â CHOLLI'R CYFLE





Yn sgil y straen a’r trawma yn gysylltiedig â’r ffordd hon o fyw, dechreuodd ddioddef pyliau o banig a churiad calon ansefydlog. Defnyddiodd un o’r clirweledwyr godi ofn arni fel ffordd o gael arian oddi wrthi – bygythiad maleisus i hen wraig yn byw ar ei phen ei hun, a’r cyfan oherwydd nad oedd Jessica wedi gallu talu ei ‘ffi’!

Aeth pethau’n drech na hi, gorff ac enaid, yn sgil y pla parhaus yr oedd y sgamwyr wedi’i achosi dros y blynyddoedd. Ond eto i gyd, i bobl eraill roedd yn rhoi’r argraff ei bod yn gallu gofalu am ei hun a thrafod ei harian ei hun.

Roedd Jessica wedi’i dal mewn byd rhithiol a oedd wedi datblygu i fod yn realiti. Roedd wedi’i chyflyru i gymryd rhan mewn proses a oedd yn ecsbloetio ei hun.

## Yn anffodus, roedd yn rhy hwyr

Bu farw Jessica fis Hydref 2007, yn 83 oed. Ar ei thystysgrif marwolaeth mae’n dweud ‘Achos y farwolaeth – niwmonia’. Nid yw’n dweud dim am y 30,000 o lythyron sgam a gawsai, na’r ffaith ei bod wedi dioddef ar drugaredd gangiau o droseddwyr cyfundrefnol yn ystod pum mlynedd olaf ei bywyd.



# Addysg yw'r allwedd i ddiogelwch

Rhoddodd yr hyn a ddigwyddodd i fy mam yr ysbrydoliaeth imi ddechrau'r ymgyrch Think Jessica. Yn ogystal â dwyn oddi wrth fy mam, fe wnaeth y sgamwyr chwalu'r berthynas agos a arferai fod rhyngom. Roeddwn i'n ymwybodol bod yn rhaid bod dioddefwyr eraill fel fy mam, a theuluoedd eraill a oedd ar ben eu tennyn yn ceisio'u diogelu. Roeddwn i'n poeni'n arbennig am y rhai a oedd yn fwy agored i niwed a'r rhai a oedd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol.

Bum yn ymgyrchu i addysgu a rhybuddio'r gweithwyr proffesiynol, y gwasanaethau post a'r llywodraeth i gymryd camau i amddiffyn y rhai na allant amddiffyn eu hunain.

Ar ôl imi ddechrau'r ymgyrch, roedd cymorth a chyngor proffesiynol ar gael i ddioddefwyr a'u teuluoedd. A gwelwyd lleihad yn nifer y post sgam yn system bost y DU. Ond, mae sgamwyr o hyd yn meddwl am ffyrdd newydd sy'n llwyddo i ddarbwyllo pobl i wario'u harian. Mae mwy a mwy o adroddiadau am bobl yn cael eu twyllo gan sgamwyr bob blwyddyn.

Ar y cyd, gallwn frwydro yn ôl ac atal troseddwyr creulon rhag byw yn dda ar arian sy'n cael ei ddwyn oddi wrth bobl onest a deallus ac sy'n fodlon ymddiried mewn eraill.

Mae Think Jessica the Film yn seiliedig ar y straeon gwir am Jessica a dioddefwyr eraill, ac mae ar gael i'w gwylio yn **www.thinkjessica.com**

**Marilyn Baldwin OBE**

## Friends Against Scams

Nod Friends Against Scams yw codi ymwybyddiaeth ac ysbrydoli pobl i weithredu a gwneud gwahaniaeth. I gael gwybod mwy a bod yn Ffrind, ewch i **www.friendsagainstscams.org.uk**

# Cysylltiadau defnyddiol...

## Action Fraud

Os ydych wedi'ch dal gan sgam, wedi eich twyllo neu ddioddef seiberdrosedd (trosedd gyfrifiadurol), dywedwch wrth Action Fraud amdano dros y ffôn neu drwy'r wefan. Mae'r wefan yn rhoi cyngor cynhwysfawr ar atal twyll a seiberdroseddu.

**Ffôn: 0300 123 2040**
**www.actionfraud.police.uk**

## Crimestoppers

Os oes gennych wybodaeth am unrhyw drosedd, ond byddai'n well gennych beidio â siarad â'r heddlu ac aros yn ddienw, cysylltwch â Crimestoppers.

**Ffôn: 0800 555 111**
**www.crimestoppers-uk.org**

## Cyngor Ar Bopeth (CAB) – mewn partneriaeth â Safonau Masnach.

Rhoddir cyngor cyfrinachol ac annibynnol yn rhad ac am ddim i helpu pobl i ddeall a goresgyn eu problemau. Gall y rhain amrywio o bryderon ariannol, i broblemau â thai a hawliau defnyddwyr.

**Ffôn: 03444 111 444**
**www.citizensadvice.org.uk**

## Post Sgam y Post Brenhinol

Os ydych chi, neu aelod o'r teulu, yn credu eich bod yn cael post sgam, dywedwch wrth y Post Brenhinol amdano.

**Ffôn: 0800 0113 466**
**Ysgrifennwch at: Y Post Brenhinol, Rhadbost Post Sgam**
**E-bost: scam.mail@royalmail.com**

## Gwasanaeth Dewis Post

Gwasanaeth am ddim sy'n galluogi defnyddwyr y DU i beidio â derbyn post digroeso, drwy dynnu eu cyfeiriad oddi ar restrau postio. Mae'r Post Brenhinol, cymdeithasau masnach a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ei gefnogi. Sylwer: dim ond post dilys y mae hyn yn ei leihau, nid post twyllodrus.

**Ffôn: 020 7291 3310 i gofrestru ar gyfer y Gwasanaeth Dewis Post**
**www.mpsonline.org.uk**

## Gwasanaeth Eithrio y Post Brenhinol

Caiff rhai eitemau post eu hanfon allan heb gyfeiriad – maent yn cael eu dosbarthu i bob perchennog tŷ mewn stryd neu dref. I gael eich eithrio rhag gorfod derbyn y post hwn drwy'r Post Brenhinol, anfonwch eich enw a'ch cyfeiriad i Rhadbost, GWASANAETHAU CWSMERIAID Y POST BRENHINOL; neu anfonwch eich enw a'ch cyfeiriad drwy e-bost i optout@royalmail.com. Byddwch yn cael ffurflen y mae'n rhaid ichi ei llofnodi a'i dychwelyd.

## Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn (TPS)

Gall unigolion gofrestru i gael eu heithrio rhag gorfod derbyn galwadau ffôn gwerthu a marchnata dilys digroeso. Sylwer: nid yw sgamwyr yn 'gweithio' mewn amgylchedd y gellir ei reoleiddio.

**Ffôn: 0345 070 0707**
**www.tpsonline.org.uk**

## Get Safe Online

Hwn yw'r prif ffynhonnell ar gyfer diogelwch ar-lein – mae'n rhoi cyngor i'r cyhoedd yn ogystal â busnesau. Mae'n helpu i ddiogelu rhag twyll a bygythiadau ar-lein. Mae'n gweithio'n agos â'r Heddlu Metropolitan, heddluoedd ac asiantaethau eraill y DU i ddarparu'r cyngor a'r rhybuddion diweddaraf i atal troseddu.

**www.getsafeonline.org**

### Stay Safe Online

Mae'r sefydliad hwn yn grymuso defnyddwyr cyfrifiaduron yn y cartref â'r wybodaeth sydd ei hangen i gadw eu hunain, eu systemau cyfrifiadurol a'u gwybodaeth sensitif yn ddiogel ar-lein.

**www.staysafeonline.org**

### Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Ei nod yw sicrhau bod cwsmeriaid yn cael bargen deg. Mae'n rheoli ymddygiad dros 56,000 o fusnesau. Mae eu gweithgareddau yn cynnwys sicrhau bod cwsmeriaid yn cael y nwyddau a'r gwasanaethau priodol, a bod y cwmni'n rhoi mwy o flaenoriaeth i'r cwsmer nag i'w elw a'i enillion ei hun.

**Ffôn: 0800 111 6768**
**www.fca.org.uk**

### Online Dating Association

Mae'n ofynnol i aelodau'r ODA gadw at godau ymarfer yr aelodau. Mae'n rhaid iddynt ymrwymo i roi cyngor, arweiniad a chymorth i ddefnyddwyr eu gwefannau ar-lein, os bydd problem yn codi wrth eu defnyddio.

**www.datingagencyassociation.org.uk**

### Action On Elder Abuse

Mae'r sefydliad hwn yn gweithio i ddiogelu ac atal cam-drin oedolion hŷn sy'n agored i niwed.

Mae'n darparu llinell gymorth am ddim sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth i ddioddefwyr, ac i'r rhai sy'n pryderu am gam-drin neu ecsbloetio ariannol, neu wedi bod yn dyst i hyn. Nod eu rhaglen Gwirfoddoli Cymorth Cymheiriaid yw tynnu pobl hŷn ynghyd i gefnogi ei gilydd.

**Llinell gymorth gyfrinachol: 080 8808 8141**
**www.elderabuse.co.uk**

### Cymorth i Ddioddefwyr

Mae'r sefydliad hwn yn elusen annibynnol yng Nghymru a Lloegr, sy'n darparu cymorth ymarferol ac emosiynol arbenigol i ddioddefwyr a thystion troseddau.

**Rhadffôn: 080816 89 111**

### Age UK

Hon yw elusen fwyaf y wlad, sy'n ymrwymo i wella bywydau pobl hŷn. Mae'n cynnig cyfeillgarwch, cyngor a chymorth i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.

**Ffôn: 0800 169 8787**
**www.ageuk.org.uk**

### Alzheimer's Society

Elusen genedlaethol sy'n cynnig cyngor a chymorth i'r rhai y mae dementia wedi effeithio arnyn nhw.

**Ffôn: 0300 222 1122**
**www.alzheimers.org.uk**

### The Silver Line

Cynllun i bobl hŷn yw hwn, sy'n cynnig yr unig wasanaeth llinell gymorth am ddim yn y DU sydd ar gael bob awr o bob dydd. Gellir trefnu cynlluniau cyfeillgarwch rhwng pobl hŷn a gwirfoddolwyr. Maen nhw'n cael eu paru ar sail eu diddordebau. Gwneir cysylltiad dros y ffôn ac mewn llythyr. Mae The Silver Line hefyd yn bodoli i helpu i gysylltu pobl hŷn â gwasanaethau lleol.

**Ffôn: 0800 4 70 80 90**
**www.thesilverline.org.uk**

### Western Union

Os ydych wedi defnyddio'r gwasanaeth trosglwyddo arian ac yn credu bod y trafodiad yn dwyllodrus, cysylltwch â Western Union ar unwaith ar **0800 026 0309**.

# Rhifau cyswllt y gallai fod eu hangen ar frys

Mewn argyfwng ffoniwch yr heddlu ar **999**.
Os nad yw'n argyfwng ffoniwch **101**.

# RHYBUDD

## Nid ydym yn delio â galwyr digroeso na masnachwyr dirybudd

# GADEWCH A PHEIDIWCH Â DYCHWELYD

## Mae methu â gwneud hyn yn drosedd a byddwn yn ffonio'r heddlu

THINK JESSICA

www.thinkjessica.com

TORRWCH HWN ALLAN A'I DDANGOS MEWN FFENESTR

Dangoswch yr arwydd hwn
yn eich ffenestr.

(Bydd rhoi darn o garden
y tu ôl iddo yn atal y golau
rhag disgleirio trwyddo.)

TORRWCH HWN ALLAN A'I DDANGOS MEWN FFENESTR




# Think Jessica the Film

Yn seiliedig ar stori wir Jessica a dioddefwyr eraill.
Ar gael i'w gwylio ar wefan **www.thinkjessica.com**.



# Asiantaethau a sefydliadau

Os oes gennych ddiddordeb mewn prynu'r llyfrynnau hyn mewn swmp, wedi'u haddasu gyda'ch logo chi, anfonwch e-bost i:
**advice@thinkjessica.com**

**Think Jessica, PO Box 4442, Chesterfield, S44 9AS.**

**ActionFraud**
Report Fraud & Internet Crime
**actionfraud.police.uk**
**0300 123 2040**



# Pobl sy'n bachu cyfle ac sy'n chwilio am dargedau hawdd yw sgamwyr

Er y gall fod yn frawychus darllen am sgamiau, byddwch yn dawel eich meddwl, waeth beth y bydd y sgamiwr yn ceisio'ch argyhoeddi chi ohono, y gwir amdani yw nad ydyn nhw'n eich adnabod CHI!

Y cyfan a wnânt yw taflu rhwyd i weld pwy fydd yn cael ei ddal. Maen nhw'n poeni pobl sy'n ymgysylltu â nhw. Nid ydyn nhw'n chwilio am bobl sy'n gwybod am sgamiau. Fel pob troseddwr, nid ydynt eisiau i bobl wybod amdanynt, ac ni fyddant yn gwneud unrhyw beth i beryglu cael eu dal.

- Cost sgamiau i economi'r DU yw £5-10 biliwn y flwyddyn.
- Dim ond 5% o ddioddefwyr sy'n rhoi gwybod am y digwyddiad.
- Mae dros 53% o bobl dros 65 oed wedi'u targedu gan sgamiau.
- Nid oes unrhyw ddioddefwr nodweddiadol. Mae yna sgam i bawb os ydyn nhw'n cael eu dal gan y sgam iawn ar yr amser iawn.
- Bydd sgamwyr yn parhau i feddwl am ffyrdd newydd mwy argyhoeddedig o gael gafael ar arian oddi wrth bobl, neu i ddatgelu eu gwybodaeth bersonol.

Byddai'n amhosibl ymdrin â phob sgam sy'n bodoli. Mae'r llyfr hwn yn ymdrin â'r rhai mwyaf cyffredin. Mae hefyd yn eich cyfeirio i sefydliadau sy'n cynnig cyngor a chymorth.

THINK JESSICA

www.thinkjessica.com

**Think Jessica Publications PO Box 44 42, Chesterfield, S44 9AS**

©2020 Think Jessica